Mae UNSAIN yn ymgyrchu dros godiad cyflog teg i staff cymorth mewn ysgolion yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Rydym wedi cyflwyno hawliad cyflog sy'n galw am godiad cyflog o £3,000 neu 10%, pa un bynnag sydd uchaf yn eich amgylchiadau unigol chi. Byddai cynnydd cyfradd safonol yn cael ei gyfrifo pro rata ar gyfer gweithwyr rhan-amser a'r rheini sy'n gweithio yn ystod y tymor yn unig. Mae cynnig cyflog teilwng yn hanfodol a dim ond drwy sefyll gyda'n gilydd y gwnawn ni anfon neges glir at gyflogwyr eich bod yn haeddu mwy.

Dyma 3 enghraifft o bethau syml a hawdd y gallwch chi eu gwneud heddiw:

1. Gwirio a diweddaru eich data

Treuliwch 5 munud yn gwirio pa fanylion sydd gennym ni yn barod gan ddefnyddio MyUNISON – **www.unison.org.uk/my-unison**

2. Cysylltu â'ch cynghorydd

Mae gennym ni e-bost parod i'w anfon y gallwch chi ei ddefnyddio i ofyn iddyn nhw gefnogi codiad cyflog teilwng i staff cynghorau ac ysgolion: **https://action.unison.org. uk/page/145600/action/1**

3. Anfon e-bost at eich AS ynghylch y lefelau cyllid mewn ysgolion:

Mewn ysgolion, mae lefel y cyllid yn dal yn is nag yr oedd yn 2010. Mae tanfuddsoddi mewn addysg yn esgor ar argyfwng recriwtio a chadw staff ym maes addysg, sy'n effeithio ar lwyth gwaith staff ac ansawdd y dysgu. Anfonwch e-bost at eich AS yma yn gofyn iddo godi'r mater hwn yn y senedd: **https://action.unison.org.uk/page/130424/action/1**

Cofiwch mai UNSAIN, GMB ac Unite yw'r unig dri undeb sy'n negodi gyda'r cyflogwyr ar gyflog NJC.

Sefwch gyda'ch gilydd dros gyflogau gwell

TÂL GWEITHIWR YSGOL A CHYNGOR 2024

Mae rhagor o wybodaeth am ein hymgyrch ar gael yn:
www.unison.org.uk/LGpay

UNISON
Cymru Wales

Published by UNISON, 130 Euston Road, London NW1 2AY • CU / March 2024 / 301 / 4585